



Tîm Dyslecsia

- **Gwybodaeth am y Tîm**
- **Beth sydd angen i fyfyrwyr ei wneud**
- **Lwfansau Myfyrwyr Anabl (LMA)**
- **Cynllun Cefnogi Dysgu Personol (CCDP)**
- **Rhwystrau i astudio**

Ffôn: 01248 383620 / 01248 382032

E-bost:

gwasanaethanabledd@bangor.ac.uk

Mae'r daflen hon ar gael mewn gwahanol fformat



Gwybodaeth am y Tîm

Mae'r Gwasanaeth Dyslecsia yn rhoi gwybodaeth a chyngor ynglŷn â'r materion isod:

- Cynlluniau Cefnogi Dysgu Personol.
- Lwfansau Myfyrwyr Anabl.
- Cymorth wrth astudio.

Gall myfyrwyr ddod am gyngor (yn Gymraeg neu Saesneg) ar ddatblygu eu sgiliau dysgu a mynd i'r afael â gofynion astudio, naill ai'n rheolaidd neu pan fyddont yn teimlo'r angen am hynny.

Mae myfyrwyr yn gweithio gyda staff arbenigol i ddatblygu sgiliau a strategaethau ar gyfer:

- Trefnu / rheoli amser
- Dod i ben â'r darllen.
- Cynllunio traethodau / ysgrifennu academaidd.
- Adolygu / dysgu ar y cof / arholiadau.
- Mathemateg / Ystadegau.

Beth sydd angen i fyfyrwyr ei wneud

Cofrestru gyda ni i drefnu addasiadau a chefnogaeth. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi drwy gylchlythyrau a negeseuon e-bost.

Byddwn angen copi o adroddiad ar eich asesiad gwahaniaeth dysgu penodol (SpLD) wedi ei ysgrifennu gan seicolegydd addysgol neu athro arbenigol sydd â thystysgrif ymarfer.

Os nad yw eich adroddiad yn cwrdd â gofynion meini prawf y Lwfans Myfyrwyr Anabl, gallwn drefnu asesiad newydd. Mae'n bosib y gall myfyrwyr sydd wedi eu cofrestru ym Mhrifysgol Bangor wneud cais am gyllid at hyn o'r Gronfa Caledi Myfyrwyr.

Lwfansau Myfyrwyr Anabl

Lle bo hynny'n berthnasol, gall myfyrwyr wneud cais i'w darparwr cyllid am Lwfans Myfyrwyr Anabl, a all dalu am fwy o gefnogaeth i'w helpu i drefnu a chyflawni eu gofynion astudio, ac i hwyluso'r ffordd iddynt fanteisio i'r eithaf ar fywyd academaidd a chymdeithasol y brifysgol.

Cynllun Cefnogi Dysgu Personol

Caiff y rhain eu llunio i fyfyrwyr unigol ac maent yn nodi'r addasiadau priodol sydd eu hangen i leihau'r rhwystrau i astudio.

Rhwystrau i Astudio

Fel rhan o Gwasanaethau Anabledd rydym yn ceisio lleihau'r rhwystrau i astudio. Ein nod yw helpu myfyrwyr gyda gwahaniaethau dysgu penodol i gyflawni eu hamcanion dysgu trwy drefnu addasiadau priodol o ran darlithoedd, asesiadau ac arholiadau neu fynediad at wasanaethau llyfrgell, er enghraifft.

